Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 1267 (Cy. 253)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Addasiad Ynysoedd Scilly) 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud addasiad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel bod Cyngor Ynysoedd Scilly yn cael ei drin fel awdurdod lleol yn Lloegr at ddibenion y Ddeddf honno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 1267 (Cy. 253)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Addasiad Ynysoedd Scilly) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Tachwedd 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *3 Rhagfyr 2018* |
| *Yn dod i rym* | *4 Chwefror 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 197(7) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Addasiad Ynysoedd Scilly) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Chwefror 2019.

**Cymhwyso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gydag addasiad**

**2.**—(1) Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael effaith gyda'r addasiad ym mharagraff (2).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad at "awdurdod lleol yn Lloegr"(**2**) i'w drin fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at Gyngor Ynysoedd Scilly.

(**1**) 2014 dccc 4.

(**2**) Diffinnir "awdurdod lleol yn Lloegr" yn adran 197(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel: "(a) cyngor sir yn Lloegr, (b) cyngor dosbarth ar gyfer ardal yn Lloegr lle nad oes cyngor sir, (c) cyngor

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Huw Irranca-Davies*
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

29 November 2018

bwrdeistref yn Llundain, neu (d) Cyngor Cyffredin Dinas Llundain."